# #TrysorauTreftadaeth – Cymerwch ran ar 14 Ionawr 2025

18/12/2024



Ymwelwyr yn cael golygfa anhygoel o SS Great Britain Brunel o'r doc sych.

Y diwrnod Trysorau Treftadaeth yw ein moment flynyddol i arddangos y dreftadaeth amrywiol anhygoel ar draws y DU.

Ymunwch â ni ar 14 Ionawr 2025 ar gyfryngau cymdeithasol i ddathlu eich storïau, gwrthrychau, lleoedd, a phobl treftadaeth ysbrydoledig.

Y llynedd, cymerodd miloedd ran ac ysbrydolwyd miliynau – gadewch i ni wneud 2025 hyd yn oed yn fwy a chael treftadaeth i drendio eto.

## Beth fydd eich trysor treftadaeth?

Gallai fod yn eitem gasgliad ysbrydoledig, yn barc hardd, yn daith gerdded y gaeaf, eich hoff amgueddfa neu'n stori hanes lleol.

Efallai eich bod wedi mwynhau prosiect treftadaeth ar-lein anhygoel, neu efallai mai'r staff a'r gwirfoddolwyr yn eich lleoliad yw eich gwir drysorau treftadaeth.

Mae cymryd rhan yn ffordd wych o arddangos eich gwaith neu leoliad. Os ydych chi wedi cael eich ariannu, mae hefyd yn gyfle gwych i gydnabod eich grant a diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth.

## Sut i gymryd rhan

Rhannwch lun, defnyddiwch yr hashnod #TrysorauTreftadaeth a thagiwch ni – @HeritageFundCYM – ar Twitter/X ac Instagram.

Rhywfaint o ysbrydoliaeth postio:

- #DiwrnodTrysorauTreftadaeth Hapus! I ddathlu gyda @HeritageFundCYM rydyn ni'n tynnu sylw at dlws treftadaeth (nodwch y lle/prosiect), gyda diolch i chwaraewyr y #LoteriGenedlaethol
- Rydyn ni'n ymuno â @HeritageFundCYM i ddathlu #TrysorauTreftadaeth! Heddiw rydyn ni'n arddangos y (nodwch y lle/prosiect) ysblennydd. (Nodwch ffaith am y lle/prosiect)
- Y Diwrnod #TrysorauTreftadaeth yma rydyn ni'n taflu goleuni ar [enw'r person], y mae ei waith gwych wedi bod yn hanfodol i'n prosiect treftadaeth - oll yn bosibl diolch i gefnogaeth gan #LoteriGenedlaethol @HeritageFundCYM

Ni allwn aros am weld eich postiadau.

I gael mwy o ysbrydoliaeth, bwrw golwg ar bostiadau #TrysorauTreftadaeth y llynedd ar Twitter/X.

## ddordeb hefyd mewn ...



Mae Llawr Uchaf arbrofol Amgueddfa Manceinion yn cefnogi gweithredu ar y cyd mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol. Credyd: Amgueddfa Manceinion.

### adwy y Flwyddyn 2025











nos Agored y Loteri Genedlaethol 2025

Cydnabod a dathlu eich grant